Sylfaen Uned 21 y de – Gwyliau

Nod: Adolygu ac ymestyn

Geirfa

antur	adventure	twristiaeth	tourism
cymdeithas rieni	parents' association	ysgol fabanod	infant school
sbectol haul	sunglasses		

adroddiad(au)	report(s)	niwl(oedd)	fog(s), mist(s)
cyhoeddiad(au)	announcement(s)	swyddog(ion)	officer(s)
darlithydd (darlithwyr)	lecturer(s)	sychwr gwallt	hair dryer
dyffryn(noedd)	valley(s)		

anturus	adventurous	gwag	empty
bodlon	willing; contented, satisfied	hen ffasiwn	old-fashioned
canolog	central	naturiol	natural
coll	lost	ychwanegol	additional

clirio	to clear
cyhoeddi	to announce

ar fai	to blame; at fault

Geiriau pwysig i fi

....

....

....

Gêm o gardiau

	♠	♦	♣	♥
A	Pa mor bell wyt ti'n byw o'r ysbyty agosa?	Beth fyddi di'n ei ddathlu nesa?	Cymhara ddau fis. Defnyddia -ach	Dweda rywbeth am dy gymdogion di.
2	Beth wyt ti'n hoffi ei fwyta amser brecwast?	Cymhara'r tywydd heddiw a ddoe.	Pa mor hen yw dy ffôn di?	Beth wyt ti'n ei fwynhau am y Nadolig?
3	Pa fis yw'r gwlypa yng Nghymru?	Pa un yw dy hoff ffilm di?	Pa fwyd dwyt ti ddim yn ei hoffi?	Beth yw enw'r tŷ bwyta druta yn yr ardal?
4	Pwy yw dy hoff ganwr/gantores di?	Dweda rywbeth am dy dŷ di pan o't ti'n blentyn.	Beth yw dy enw llawn di?	Pwy yw'r ifanca yn dy deulu di?
5	Beth yw'r peth anodda am ddysgu Cymraeg?	Beth wyt ti'n hoffi ei goginio?	Beth yw'r rhaglen deledu orau ar hyn o bryd?	Wyt ti ar-lein ar hyn o bryd?
6	Pa mor hir yw dy daith di i'r gwaith?	Pa mor braf oedd hi ddoe?	Pa fis yw'r oera yng Nghymru?	Oes anifail dwyt ti ddim yn ei hoffi?
7	Pa waith yn y tŷ dwyt ti ddim yn ei hoffi o gwbl?	Pa mor aml wyt ti'n bwyta bwyd llysieuol?	Beth wnest ti nos Sadwrn?	Cymhara ddwy dref. (prysur)
8	Cymhara ddwy siop. (drud)	Wyt ti'n hoffi dathlu Nos Galan? Pam?/Pam lai?	Sawl comedïwr o Gymru dych chi'n nabod?	Dweda rywbeth am dy gartref di.
9	Beth do't ti ddim yn hoffi ei fwyta pan o't ti'n blentyn?	Cymhara ddau fwyd. (blasus)	Beth ddathlaist ti ddiwetha?	Pa mor brysur fyddi di y penwythnos nesa?
10	Pa fath o gerddoriaeth dwyt ti ddim yn ei hoffi?	Ym mha fis mae dy ben-blwydd di?	Pa un yw dy hoff dŷ bwyta di?	Pa ddiod dwyt ti ddim yn ei hoffi?
Jac	Pwy yw'r hena yn dy deulu di?	Beth dwyt ti ddim yn ei fwynhau am y Nadolig?	Pa fath o ffilmiau dwyt ti ddim yn eu hoffi?	Dweda rywbeth am dy hoff le di yn yr ardal.
Brenhines	Beth yw'r peth pwysica wrth ddysgu Cymraeg?	Dweda rywbeth am un o dy ffrindiau di.	Pwy yw'r person prysura wyt ti'n nabod?	Pa mor bell yw'r orsaf drenau agosa o dy dŷ di?
Brenin	Pryd wyt ti hapusa?	Pa mor braf oedd hi mis Awst diwetha?	Pryd siaradaist ti â'r cymdogion ddiwetha?	Pa mor brysur o't ti y penwythnos diwetha?

Adolygu – Gwrando, darllen ac ynganu

Gwrandewch ar y cyhoeddiadau. (Dych chi'n gallu eu darllen nhw yr un pryd.) Ble basech chi'n eu clywed nhw?

1. .....
2. .....
3. .....
4. .....
5. .....
6. .....

Gyda'ch partner, darllenwch yn uchel:

1. Mae menyn Fferm Abercastell yn dod yn syth o'r fferm i'r siop. Mae'n ffres, mae'n flasus ac mae'r pris yn rhesymol iawn! Edrychwch amdano fe yn eich archfarchnad leol. ♪♫ Menyn Fferm Abercastell ♪♫

2. Digwyddodd protest y tu fas i Neuadd y Sir heddiw. Roedd pum deg o fyfyrwyr yn anghytuno â phenderfyniad y Cyngor i gau adran Gymraeg y brifysgol ym mis Medi. Dwedodd Mrs Mari Morgan, o'r brifysgol, fod y Cyngor ar fai yn cau adran mor dda, gyda llawer mwy o bobl ifainc yn barod i ddechrau ar y cyrsiau y flwyddyn nesa.

3. Y trên nesa i gyrraedd yw'r gwasanaeth saith munud wedi wyth i Abergwaun, yn galw yng Nghasnewydd, Caerdydd, Abertawe, Caerfyrddin a Hwlffordd. Bydd y trên yn cyrraedd Abergwaun am hanner dydd. Cymerwch ofal wrth fynd ar y trên, mae bwlch rhwng y trên a'r platfform.

4. Dyma'r bwletin tywydd. Bydd hi'n oerach heddiw na ddoe, ac yn fwy gwyntog. Ond mae'r niwl wedi clirio dros nos a bydd digon o haul, gyda'r tymheredd yn cyrraedd un deg saith gradd. Mwynhewch y penwythnos!

5. Bydd y ddrama 'Y Dyffryn Du' yn dechrau mewn pum munud, felly wnewch chi gymryd eich seddau chi, os gwelwch yn dda? Diffoddwch eich ffonau symudol cyn mynd i mewn. Diolch.

6. Tawelwch, os gwelwch chi'n dda. Y person nesa i ganu yw Ffion Philips o Ffostrasol. Mae Ffion yn mynd i ganu 'Ffal-di-ral-di-ral'. Diolch yn fawr. Ydy'r beirniad yn barod? Caewch y drysau, os gwelwch chi'n dda.

Adolygu – Llenwi bylchau

Gyda'ch partner, llenwch y bylchau:

1. Mae hi'n ..... (oer) heddiw na ddoe.
2. Ble .....'r cyfarfod heno?
3. Pa mor ..... yw'r gantores? Pum troedfedd, dwy fodfedd.
4. Pwy ..... tiwtor eich cwrs chi?
5. ..... (aros) os gwelwch chi'n dda!
6. Pwy ..... gweithio yn y banc bwyd heddiw?
7. Caffi Coch yw'r caffi ..... (da) yn y dre.
8. .....! (brysio) Bydd dy fws di yma mewn 5 munud!
9. Faint o'r gloch ..... ddrama'n gorffen?
10. Beth ..... bod?
11. Gawn ni ofyn cwestiwn? (✓) .....
12. Wyt ti'n mwynhau'r gwyliau? (✗) .....

Gwyliau

Baled y Bagiau Coll – Mae Gareth, Ann a Geraint ym maes awyr Caerdydd.







Dyma Ann o Aberteifi,
Mae ei ches yn Lanzarote,
Gyda Gareth o Gaerffili,
Mae ei fagiau yn Alicante.
Ond mae Geraint o Gaergybi
Wedi colli pawb o'r teulu:
Er ei fod e'n ôl yng Nghymru,
Mae pawb arall yn Miami!

Gyda'ch partner, atebwch y cwestiynau:

Pwy sy wedi colli dillad?

.....

Beth mae Gareth wedi ei golli?

.....

Pwy sy'n byw bella o Gaerdydd?

.....

Pwy sy'n byw agosa i Gaerdydd?

.....

Siaradwch

- Dych chi wedi colli rhywbeth ar wyliau?

Gwylio 1 – Gwyliau antur

1. Dych chi'n mynd i wylio darn am wyliau antur yng Nghymru. Ysgrifennwch eiriau dych chi'n meddwl byddwch chi'n clywed ar y fideo yn y blwch.

Gwyliwch y fideo. Faint o'r geiriau glywoch chi?

2. Dyma bum gair newydd byddwch chi'n clywed yn y fideo:

antur **o fewn** **chwarel** **llyn** **naturiol**

Gwyliwch y fideo eto a chywirwch y brawddegau. Mae un broblem ym mhob brawddeg.

- Yn ôl Lonely Planet, mae De Cymru yn lle gwych ar gyfer gwyliau antur.
- Mae'r Wyddfa o fewn deg milltir i Glan-llyn.
- Mae chwarel ym Mlaenau Ffestiniog ac ym Mangor.
- Llyn Tegid yw'r llyn naturiol lleiaf yng Nghymru.

3. Gwyliwch y ffilm eto. Ym mha drefn (*In which order*) mae'r gweithgareddau (*activities*) yn y lluniau'n codi?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

4. Atebwch y cwestiynau:

i. Yn ôl y fideo, beth yw 'Lonely Planet'?

_____

ii. Beth sy'n dda iawn yng Nglan-llyn?

_____

iii. Beth dych chi'n gallu wneud ar Lyn Tegid?

_____

iv. Beth yw'r tair ffordd bosib o gyrraedd pen yr Wyddfa?

_____

v. Beth dych chi'n gallu wneud yn y glaw yng Nglan-llyn?

_____

vi. Pam mae'r ardal yn dda i ddysgwyr Cymraeg?

_____

5. Byddwch chi'n gwylio diwedd y fideo eto. Cyn gwylio, llenwch y bylchau gyda'ch partner.

Os _____ hi'n bwrw glaw, mae llawer o _____ i wneud yng

Nglan-llyn, fel bowlio _____, dringo _____ ddringo, nofio yn

y _____, ac wrth gwrs ymweld _____ Bala a Llanuwchllyn.

Lle perffaith i ymarfer _____ Cymraeg.

6. Siaradwch:
- Beth fasech chi'n hoffi wneud yng Nglan-llyn?
- Beth fasech chi ddim yn hoffi wneud?

Dyma wybodaeth am wersyll Glan Llyn:
Glan-llyn Outdoor Activity Centre (urdd.cymru)

Sgwrs – Yn y ganolfan dwristiaeth

Swyddog y Ganolfan:	Bore da, croeso i Aber-pwll.
Carwyn Crac:	Bore da, 'dyn ni yma ar wyliau am bythefnos.
Swyddog y Ganolfan:	Da iawn. Ble dych chi'n aros?
Carwyn:	Yn y parc carafanau ar y bryn.
Swyddog y Ganolfan:	Braf iawn! Dych chi'n gweld y môr o'r garafán?
Carwyn:	Nac ydyn, dyw'r niwl ddim wedi clirio o gwbl.
Swyddog y Ganolfan:	Beth bynnag, sut dw i'n gallu eich helpu chi?
Carwyn:	Beth dw i'n gallu ei wneud yma yn Aber-pwll?
Swyddog y Ganolfan:	Mae traeth enwog iawn yma, wrth gwrs, gyda lle braf iawn i nofio.
Carwyn:	Dw i ddim yn hoff o nofio yn y glaw. Oes pwll nofio yma?
Swyddog y Ganolfan:	Wel, nac oes, ond mae pwll padlo ar y prom.
Carwyn:	Dw i ddim yn lico padlo yn y glaw chwaith. Oes sinema yma?
Swyddog y Ganolfan:	Nac oes, ond dych chi'n gallu benthyg DVDs o'r llyfrgell.
Carwyn:	DVDs? Am hen ffasiwn! Oes tafarn dda yn y pentre?
Swyddog y Ganolfan:	Oes wir, y Llew Gwyn, gyda bwyd blasus iawn.
Carwyn:	O na, dw i wedi bod yna, do'n nhw ddim yn hoffi'r ci.
Swyddog y Ganolfan:	Dych chi'n gallu bwyta gyda'r ci yn yr ardd gwrw.
Carwyn:	Dw i ddim yn hoffi bwyta mas yn y glaw chwaith.
Swyddog y Ganolfan:	Dych chi eisiau map gyda lleoedd picnic da yn yr ardal?
Carwyn:	Nac ydw, wir! Dw i ddim yn dod i Aber-pwll ym mis Tachwedd eto!

Darllen

Gyda'ch partner, darllenwch yr hysbysebion gwyliau ac atebwch y cwestiynau:

Llundain

2-4 Hydref
Dwy noson yng ngwesty'r Hilton yng nghanol y ddinas.
Sioe nos Sadwrn.
£205
(ddim yn cynnwys brecwast, ond mae ar gael am £9.50).

Caerdydd

22-25 Hydref
(hanner tymor yr ysgol).
Aros am dair noson yng ngwesty'r Angel yng nghanol y ddinas
(gwely a brecwast).

Tocynnau ar gael i weld sioe yng Nghanolfan y Mileniwm
(cost tocyn yn ychwanegol)
£210.

Stratford-Upon-Avon

5-8 Tachwedd
Nos lau, nos Wener a nos Sadwrn mewn gwesty pedair seren ychydig tu allan i'r dre.
Bws i'r theatr
£175
(gan gynnwys tocyn i'r theatr).

Paris

8-12 Tachwedd
Gwesty dwy seren yng nghanol Paris am bedair noson.

Taith diwrnod i barc Eurodisney
£199
(gan gynnwys gwely, brecwast, cinio a thocyn i Eurodisney).

1. Pa un yw'r gwyliau hira?

.....

2. Pa wyliau fasai'n gyfleus i deulu gyda phlant? Pam?

.....

.....

3. Pa westy sy ddim yn ganolog?

.....

4. I gael beth fasai'n rhaid i chi dalu mwy

   a) yng Nghaerdydd? .....

   b) yn Llundain? .....

Siaradwch

- Dych chi wedi bod i Lundain, i Baris neu i Stratford-upon-Avon?
- Beth o'ch chi'n feddwl o'r lleoedd yma?
- Pa un o'r gwyliau sy'n apelio atoch chi? Pam?
- Pa un o'r gwyliau sy ddim yn apelio atoch chi? Pam?

Gwylio 2 – Mynd ar wyliau

1. Byddwch chi'n clywed y geiriau yma yn y fideo:

ffodus	**Llydaw**	**treulio**	**Yr Unol Daleithiau**
creigiau	**Llydawes**	**gogleddol**	**cartrefol**

Parwch y gair â'r diffiniad (*definition*):

cartrefol	ardal yng ngogledd Ffrainc
creigiau	America
ffodus	yn teimlo'n hapus i fod yn rhywle
gogleddol	lwcus
Llydaw	dych chi'n _____ amser mewn lle
Llydawes	dych chi'n gallu dringo arnyn nhw ar lan y môr
treulio	yn y gogledd
Yr Unol Daleithiau	merch sy'n dod o Lydaw

2. Gwyliwch y siaradwyr yn siarad am ble maen nhw'n hoffi mynd ar wyliau. Ysgrifennwch ddwy ffaith am dri o'r bobl.

i) **Enw:** .....

a) .....

b) .....

ii) **Enw:** .....

a) .....

b) .....

iii) **Enw:** .....

a) .....

b) .....

3. Yn y fideo, dych chi'n clywed:

Siân: yr ymweliad yna oedd yr un **gorau oll**.

Siân: **Mi ddaru ni** dreulio mis yn crwydro o gwmpas yr Unol Daleithiau.

Siân: **Mi ddaru ni** gymryd trên.

Aneurin: **Sa i 'di bod** ers sbel fach.

Gwyliau

Gyda'ch partner, dwedwch beth sy yn y ces.



Siaradwch

Bydd eich tiwtor chi'n gofyn i chi ddysgu un o'r cwestiynau yma. Gofynnwch y cwestiwn i bawb yn y dosbarth.

- Faint o'r pethau yma sy yn dy ges di fel arfer?
- Beth sy bob amser yn dy ges di?
- Ble est ti ar dy wyliau diwetha?
- Ble byddi di'n mynd ar dy wyliau nesa?
- Disgrifia'r lle mwya diddorol rwyt ti wedi bod.
- Ble mae'r lle prysura rwyt ti wedi bod?
- Ble baset ti'n hoffi mynd ar wyliau yn y dyfodol?
- Wyt ti'n hoffi mynd ar wyliau i leoedd newydd, neu wyt ti'n hoffi mynd yn ôl i'r un lleoedd?

Gwrando

Gwrandewch ar yr eitem ac atebwch y cwestiynau:

1. Mae Hanna eisiau i bobl eraill...
i) siarad amdani hi.
ii) aros gartre.
iii) edrych ar y teledu.
iv) ddod i chwarae bingo.

2. Erbyn hyn, mae hi'n mynd i'r bingo...
i) bob nos.
ii) gyda hen ffrind.
iii) i chwilio am ŵr.
iv) ar ei phen ei hun.

3. Mae Hanna wedi ennill...
i) potel o siampên.
ii) dim byd.
iii) gwyliau yn Florida.
iv) llawer o arian.

4. Yn y briodas, roedd...
a) teulu a ffrindiau.
b) ffrindiau o'r bingo.
c) gweithwyr o'r ysbyty.
d) cacen arbennig.

5. Dyw John ddim yn mynd i'r bingo achos...
a) mae e'n casáu bingo.
b) mae e yn y gwaith.
c) mae e'n chwarae golff.
d) does dim arian gyda nhw.

6. Mae'r bingo yn Aberefail...
a) ddwywaith yr wythnos.
b) bob nos.
c) ar y penwythnos.
d) dair gwaith yr wythnos.

Robin Radio

a) Atebwch:

Pwy yw Alejandro? .....

Beth fydd gwaith Alejandro? .....

Pa mor hir oedd gwyliau Anti Mair? .....

b) Gwrandewch am:

Dych chi'n ôl i aros?	*Are you back to stay?*
ambell waith	*sometimes*
ar ôl yr holl deithio	*after all the travelling*

c) Cyfieithwch:

We must live somewhere. .....

We enjoy travelling a lot. .....

So, where was the best country? .....